

# Bagiau ac esgidiau





# Bagiau ac esgidiau

## Bag a chwdyn gwregys

Roedd bagiau a chydau lledr fel hyn yn cael eu gwisgo gan ddynion a menywod yn oes y Tuduriaid, achos doedd dim pocedi mewn dillad ar y pryd. Roedd llawer o fathau o fagiau a chydau, rhai wedi'u gwneud o ledr croen buwch, rhai wedi'u gwneud o ledr o groen gafr neu fochyn.

Roedd y cwdyn lledr coch yma yn fath cyffredin, gyda bar pwrs, ac mae'r cwdyn lledr brown yn fath cyffredin arall, oedd yn cael ei adnabod fel cwdyn aren.

Byddai dynion yn gwisgo cwdyn neu fag drwy ei hongian ar wregys lledr am eu canol a byddai menywod yn eu gwisgo yn hongian ar wregys tenau ar eu cluniau. Roedd cydau neu fagiau lledr ar wregys yn cael eu defnyddio'n gyffredin ym Mhrydain o ddiwedd y ddeuddegfed ganrif tan o leiaf yr unfed ganrif ar bymtheg.



## Sut rydyn ni'n gwybod am fagiau a chydau gwregys?

Peintiadau, disgrifiadau mewn llawysgrifau, enghreifftiau mewn amgueddfeydd a thameidiau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.

Mae'r darlun *Francesco Sassetti and His Son Teodoro*, gan Domenico Ghirlandaio ym 1488 yn dangos bag gwregys trionglog, ac mae *Annunciation Triptych* (Merode Altarpiece), yng nghasgliad ar-lein y Metropolitan Museum of Art, yn dangos bag siâp aren, yr un fath â *Les Tres Riches Heures du Duc de Berry Octobre*, yn adnoddau cyffredin wiki.



# Bagiau ac esgidiau

## Pwrs a darnau arian

Byddai'r pwrs lledr lliwgar yma, i ddynion a menywod, yn cael ei wisgo ar ddolen dros wregys, neu am eich arddwrn. Byddai'r garrai yn tynnu'r pwrs ynghau er mwyn cadw'r darnau arian ynddo'n ddiogel. Byddai'r gleiniau gwydr a'r cylchau pres yn canu wrth i'r pwrs symud, er mwyn i'r perchennog gael clywed bod y pwrs yn dal yn ddiogel yn ei le ar ei wregys.

Y darnau arian yn y pwrs yw'r grôt arian (pedair ceiniog), a'r hanner grôt (dwy geiniog). Roedd y darnau arian eraill yng Nghyfnod Henry VII yn cynnwys y ffyrlling arian, y ddimai, y geiniog, y teston (swllt), a'r chwarter angel (dau swllt a chwe cheiniog), a'r darnau aur yma: yr hanner angel (tri swllt a chwe cheiniog), yr angel (chwe swllt ac wyth ceiniog), y rial (10 swllt), y bunt (ugain swllt) a'r sofrren gain (deg swllt ar hugain).



### Sut rydyn ni'n gwybod am byrsiau a darnau arian?

Peintiadau, disgrifiadau mewn llawysgrifau, enghreifftiau o ddarnau arian a thameidiau o byrsiau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.

Ceir enghraifft o bwrs o ledr meddal yng nghasgliad ar-lein y Metropolitan Museum of Art, ac mae llawer o enghreifftiau o ddarnau arian Tuduraidd i'w gweld mewn amgueddfeydd.



# Bagiau ac esgidiau

## Esgid

Byddai'r 'esgid far' ledr yma wedi cael ei phwytho ag edau lliain, a'i chlymu â bwcl metel. Lledr meddal yw rhan uchaf yr esgid, ac mae'r gwadnau wedi'u gwneud o ledr caled trwchus. Mae dau wadn, un mewnol ac un allanol, ac fe allech chi osod gwadn newydd yn lle'r hen wadn pan fyddai hwnnw wedi cael ei dreulio.

Roedd y math llydan yma o esgid â blaen sgwâr yn ffasiynol iawn ac yn cael ei wisgo gan ddynion a menywod a hynny ar bob lefel yn y gymdeithas. Esgidiau bar o ledr du fyddai gan y bobl dlawd, a byddai gan y cyfoethog esgidiau mewn lliwiau mwy llachar.

Byddai'r bobl gefnog iawn yn gwisgo esgidiau tebyg oedd wedi'u leinio â sidan neu felfed o liw gwahanol, a lledr y rhan uchaf wedi'i dorri ar agor er mwyn i'r sidan neu'r melfed gael eu gweld.

Byddai byclau'n cael eu gwneud o arian, neu o biwter yn cynnwys llawer o alcam fel ei fod yn edrych fel arian, gan ddibynnu pa mor gyfoethog oeddech chi.



### Sut rydyn ni'n gwybod am esgidiau oes y Tuduriaid?

Peintiadau, disgrifiadau mewn llawysgrifau, enghreifftiau mewn amgueddfeydd a thameidiau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol. Mae enghraifft o esgid blaen llydan a'r lledr wedi'i thorri'n agored o gyfnod y Tuduriaid yng nghasgliad ar-lein y V & A, a sawl enghraifft yng nghasgliad ar-lein y Metropolitan Museum of Art.

